# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Y Garreg Lwyd**

**Cartref Y Garreg Lwyd ar gyfer yr Henoed**
**Heol Salem, Sanclêr**
**Caerfyrddin**
**SA33 4DH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Y Garreg Lwyd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | INVICTA CARE HOMES LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 07 Mehefin 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae Y Garreg Lwyd yn gartref gofal bach, cyfforddus sydd wedi'i leoli y tu allan i dref farchnad fach, ac mae ganddo olygfeydd o'r ardal wledig o gwmpas. Mae'r llety i gyd ar un llawr sy'n ei gwneud hi'n haws i'r bobl symud yn hwylus o amgylch yr adeilad.

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm o staff sefydlog ar y cyfan, sy'n eu hadnabod ac yn gwybod beth sy'n bwysig iddynt.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn darparu cymorth a sesiynau goruchwylio i'r tîm o staff. Maent yn myfyrio ar y gwasanaeth ac mae ganddynt ddarlun clir o unrhyw welliannau sydd eu hangen.

## Llesiant

Gall y bobl siarad â'r staff yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan fod sawl aelod o'r staff yn siarad Cymraeg. Gall y rheolwr ddarparu'r Datganiad o Ddiben drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd pobl yn gwneud cais amdano. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi'r ffaith y gallant gyfathrebu yn eu dewis iaith a gwelsom y bobl yn siarad â'r staff yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r staff yn gwybod beth i'w wneud i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Maent yn hyderus y byddai'r rheolwr yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ac yn eu rheoli i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cyfrannu, i ryw raddau, at lesiant y bobl. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi pa mor gartrefol yw'r cartref, yn enwedig y lolfeydd bach a'r gerddi dymunol, ond mae angen ailaddurno a rhoi mwy o sylw i fanylion mewn rhai rhannau o'r cartref.

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff sy'n ofalgar ac yn frwdfrydig, ond dylai'r darparwr sicrhau bod y bobl yn ymwybodol o'u hawl i wneud mwy o ddewisiadau ynghylch agweddau ar eu gofal. Caiff eu hanghenion iechyd corfforol eu diwallu ac mae mewnbwn rheolaidd gan weithwyr iechyd proffesiynol.

Mae gan y bobl gydberthnasau da â'r staff. Mae gan berthnasau lefel uchel o hyder yng ngwasanaeth y staff gydag un yn dweud "*I love it. So happy we found it"* ac un arall yn ategu hyn, gan ddweud "*I can't imagine anything better".*

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm bach o staff sy'n frwdfrydig ac yn mwynhau eu gwaith. Disgrifiodd un aelod o'r staff y bobl y mae'n gofalu amdanynt fel "*part of my extended family",* a dywedodd y staff i gyd nad ydynt yn cael eu rhuthro yn eu gwaith a bod ganddynt amser i eistedd a siarad â'r bobl.

Mae'r bobl yn fodlon ar y cyfan gyda'r staff, gan ddweud eu bod yn "*very good*", a dywedodd un perthynas "*they seem to care, it's not just a job".* Ond dywedodd un ohonynt fod rhai o'r staff yn *"moody".* Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr a oedd yn ymwybodol o'r mater yn barod ac yn gweithio i ymdrin â'r pryderon er mwyn sicrhau bod proffesiynoldeb yn cael ei gynnal bob amser. Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl yn gyfeillgar ac yn rhwydd, sy'n dangos eu bod wedi meithrin cydberthynas. Mae'r bobl yn teimlo y gallant drafod materion â'r rheolwr y dywedwyd ei fod yn dangos diddordeb ac yn gwrando ar y bobl. Mae rhai o'r bobl yn gweld gwahaniaeth rhwng ansawdd y staff rheolaidd a'r staff asiantaeth a gyflogir gan y gwasanaeth, ac mae'n well ganddynt y staff rheolaidd. Mae'r rheolwr yn cytuno â hyn ac yn ceisio recriwtio gweithwyr newydd.

Mae'r cynlluniau gofal yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn darparu gwybodaeth am sut y dylid rhoi gofal. Mae tystiolaeth bod y bobl yn cyfrannu at gynllunio eu gofal a chadarnhaodd y perthnasau fod y cartref yn cysylltu â nhw i drafod anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae'r cartref fel arfer yn cysylltu â pherthnasau os bydd unrhyw newid i iechyd yr unigolyn. Caiff cofnodion eu hadolygu'n rheolaidd, ac mae'r cofnodion dyddiol yn llawn gwybodaeth ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn gyffredinol. Maent yn darparu tystiolaeth ynghylch sut y treuliodd y person ei amser, yn ogystal â'i ofal personol, ei hwyliau a'i ddeiet. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn gwybod beth a phwy sy'n bwysig iddynt.

Nid oes llawer o gyfleoedd i'r bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Caiff rhai gweithgareddau eu cynnig ond gall fod yn anodd ymgysylltu â'r bobl. Dywedodd un person wrthym ei fod yn mwynhau chwarae rhai gemau bwrdd, a dengys y cofnodion fod rhai o'r bobl yn mwynhau gwylio chwaraeon ar y teledu. Byddai'n well gan y rhan fwyaf o'r bobl dreulio amser yn eu hystafelloedd eu hunain neu'n eistedd yn un o'r lolfeydd, ac nid ydynt yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u trefnu. Bydd y rheolwr yn parhau i feddwl am ffyrdd o annog y bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp fel sy'n briodol.

Caiff anghenion iechyd corfforol y bobl eu diwallu. Gall y staff adnabod arwyddion o friwiau pwyso ar y croen ac maent yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae digon o gyfarpar lleddfu pwysedd a chyfarpar symud a chodi a chario o fewn y gwasanaeth. Rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni y gall y bobl wneud dewisiadau ynghylch agweddau ar eu

gofal personol, fodd bynnag, mae'r darparwr wedi cytuno i sicrhau bod y bobl yn cael cynnig dewisiadau, yn enwedig ynghylch pa mor aml y gallant gael cawod neu fath.

Mae dealltwriaeth ynghylch pwysigrwydd maeth da. Caiff prydau eu paratoi gan ddefnyddio cynhwysion ffres yn bennaf ac mae dewis o brydau bwyd. Fodd bynnag, nid yw'r pryd bwyd sy'n cael ei gynnig bob amser yn cyd-fynd â'r hyn a nodir ar y fwydlen. Mae bwyd ar gael y tu allan i amseroedd bwyd, ac roedd y bwyd a welsom yn edrych yn flasus. Mae gan y staff wybodaeth dda am hoff bethau a chas bethau'r bobl, a chaiff digwyddiadau arbennig eu dathlu a'u nodi.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion. Mae rhai o'r carpedi wedi cael eu newid ond nid ydynt wedi cwblhau pob ardal eto. Mae rhai o'r staff yn ei gweld hi'n anos symud y cymhorthion symudedd ar y carpedi, ond gofynnodd y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth am y carpedi hyn yn lle'r lloriau finyl. Mae'r llety i gyd ar un llawr sy'n ei gwneud hi'n haws i'r bobl symud o amgylch yr adeilad. Mae'r coridorau'n glir heb unrhyw beryglon baglu.

Mae ambell ran o'r gwasanaeth yn hen ffasiwn, gyda pherthynas yn disgrifio'r amgylchedd fel *"tired",* ac mae diffyg lliw ym mhob man, ond mae pob ardal yn lân ac nid oes arogleuon drwg. Mae storio yn her i'r staff, sy'n golygu y caiff cyfarpar ei storio yn un o'r lolfeydd ac mewn ystafell ymolchi nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Mae angen glanhau'r llwch oddi ar fannau uchel yn un o'r lolfeydd cymunedol, ac mae'r difrod dŵr a achoswyd gan ollyngiad yn golygu na ellir defnyddio un o'r silffoedd yn y gegin.

Mae rhai ystafelloedd gwely wedi'u personoli gydag eitemau o ddodrefn; ffotograffau ac ornamentau, ac mae gan rhai ohonynt gyfleusterau ensuite. Mae digonedd o le yn yr ystafelloedd gwely i'r bobl ymlacio a threulio amser ynddynt os nad ydynt yn dymuno defnyddio'r ardaloedd cymunedol.

Mae'r ardaloedd cymunedol, gan gynnwys y lolfeydd a'r ystafell fwyta, yn weddol gyfforddus. Caiff y gerddi eu cynnal a'u cadw'n dda ac mae ganddynt olygfeydd da o'r ardal wledig o gwmpas. Mae rhai o'r bobl yn mwynhau eistedd y tu allan pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Mae'r gegin wedi ennill y sgôr uchaf o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac mae gan y staff arlwyo yr holl gyfarpar sydd ei angen arnynt.

Caiff gweithiwr cynnal a chadw ei gyflogi i gyflawni'r holl waith sylfaenol ac mae'r rheolwr yn dweud bod amrywiaeth o grefftwyr y gallant gysylltu â nhw pan fo angen a'u bod yn ymateb yn gyflym.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff gweithwyr eu penodi'n unol â phroses recriwtio ddiogel. Mae'r ffeiliau yn hawdd eu deall ac yn drefnus. Maent yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys tystiolaeth o wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ogystal â phrawf adnabod ar ffurf llun a geirdaon addas.

Mae'r staff yn ystyried eu bod wedi cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r matrics hyfforddiant yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys Symud a Chodi a Chario; gofal dementia; diabetes ac atal a rheoli heintiau. Er bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf, mae ychydig o fylchau y mae'r rheolwr yn ymwybodol ohonynt.

Caiff sesiynau goruchwylio eu cynnal ac mae'r staff yn cael adborth ar eu gwaith i'w helpu gyda'u datblygiad proffesiynol. Gall y staff drafod unrhyw syniadau neu bryderon sydd ganddynt â'r rheolwr ac maent yn hyderus y byddant yn derbyn ymateb defnyddiol ac amserol.

Mae rhai trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i fonitro ansawdd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau'r ymweliadau monitro gofynnol a dengys y cofnodion ei fod yn cyfarfod â'r staff a'r bobl. Mae'r rheolwr wedi ysgrifennu adroddiad Sicrhau Ansawdd cynhwysfawr. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r hyn y mae'r rheolwr yn teimlo y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda, yn ogystal â meysydd i'w gwella. Gall y rheolwr drafod unrhyw faterion â'r Unigolyn Cyfrifol ac am fod yr Unigolyn Cyfrifol yn y gwasanaeth bron bob dydd, mae'r ddau mewn cysylltiad rheolaidd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/11/2023